

❖ GWEDDI DYDD NADOLIG

Diolchwn am y Nadolig – gŵyl i gofio Rhodd Duw i'n byd. Boed i'r digwyddiad cyffredin hwn o eni baban mewn beudy llwm ein hargyhoeddi o'r newydd mai Duw i bawb yw ein Duw ni, ac mai yn ein naturioldeb y deunw agosaf ato Ef. Boed i'r neges fythol i Iesu gael ei eni yn y côr elfennol ymhlith clydwch yr anifeiliaid ein hiselhau ni yn ein rhwysg aml.

Mawrygwn ddiniweidrwydd a glendid y plant ar eu bore mawr, a chofiwn ddiogelu'r 'plentyn' ynom ni – yn arbennig y gallu i ryfeddu o'r newydd. Ym mha le bynnag yr ydym wrth ymgasglu'n deuluoedd ar aelwydydd y Nadolig, gwna ni'n werthfawrogol o'r cariad a'r gofal sy'n cronni yno.

Nertha ni yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, yn ein bywydau personol ac wrth ddylanwadu ar faterion ehangach, i ddilyn llwybr Tywysog Tangnefedd, y gwerinwr arbennig hwn a fu'n ddyn yn ein plith ac eto'n Arglwydd yr Atgyfodiad. Dychwelodd eilwaith at werinwyr ei famwlad i dystio mai cariad sy'n trechu.

Diolch am y bobl hynny a ymatebodd i neges fawr Duw heb amau dros y canrifoedd. Diolch am y seren ryfeddol honno a arweiniodd groestoriad o gymdeithas i blygu ger y crud lle unwyd Dwyrain a Gorllewin ynghyd.

Diolch am gardiau Nadolig sy'n ein hysbrydoli, ac am y cadw cysylltiad blynyddol hwn â chyfeillion ym mhedwar ban byd. Rho olwg newydd i ni eleni ar ddyfnder Gŵyl y Nadolig, gan weld heibio lluniau'r cardiau delfrydol at rai o'r cardiau sydd er budd rhai ar ddibyn bywyd ar hyn o bryd.

Y Nadolig hwn ailbwysleisia yn ein bywydau bwysigrwydd y pethau cyffredin a rydd flas ar fyw. Rho bwrpas a chyfeiriad i'n cydfwyta, ein haddurno a'n hanrhegu er mwyn i ni dy roi Di yn y canol a chofio pen blwydd pwy rydym yn ei ddathlu. Pâr i ni ddathlu'n llawen a gorfoleddu yng ngenedigaeth Arglwydd Bywyd ac Arglwydd y Ddawns.

Amen.